

Parodrwydd ar gyfer y gaeaf: profi cynlluniau yn erbyn profiadau pobl

Briff i'r Aelodau o'r Senedd cyn datganiad llafar Y Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal ar barodrwydd ar gyfer y gaeaf, dydd Mawrth 13 Hydref 2026.

Llais yw'r corff statudol annibynnol sy'n rhoi llais i bobl yng Nghymru ar iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein timau lleol yn gwrando ar bobl ledled Cymru, a rhaid i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol gymryd sylw o'r hyn a ddywedwn wrthynt.

Bydd pobl yn rhoi eu barn eleni drwy dri phrawf syml: a lwyddais i gael cymorth pan oedd ei angen arnaf, a gydweithiodd y gwasanaethau er fy lles, ac a gefais fy nhrin yn ddiogel a gydag urddas? Mae'r briffio'n amlinellu'r hyn a ddyweda pobl wrthym, beth sy'n cael ei wneud eisoes, a'r tri maes y gobeithiwn y bydd y datganiad ddydd Mawrth yn ei gynnwys.

Pwysau dros y gaeaf

Mae'r gaeaf yn her i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol bob blwyddyn. Mae salwch resbiradol a salwch staff yn cynyddu'r galw ar wasanaethau Meddyg Teulu, NHS 111, y gwasanaeth ambiwlans a'r adrannau brys. Wrth i ysbytai lenwi, mae'r bobl sy'n barod i adael yn disgwyl yn hirach am ofal cartref neu mewn sefyllfaoedd gofal eraill, ac mae hyn yn golygu gorfod aros yn hirach, adrannau wedi gorlenwi ac ambiwlansys yn ciwio er mwyn trosglwyddo cleifion.

Daeth adolygiad Llywodraeth Cymru o'r gaeaf y llynedd i'r casgliad nad oedd methiant o fewn y system, ond fe weithiodd y gwasanaethau yn agos at drothwyon gweithredol diogel am gyfnodau hir o amser. Awgryma gwaith modelu Llywodraeth Cymru y bydd y pwysau ar ei waethaf eleni o gwmpas cyfnodau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, yn unol fwy neu lai â'r blynyddoedd blaenorol.

Barn y bobl

Nid y gaeaf sy'n creu'r problemau y mae pobl yn eu hwynebu mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Y gaeaf sy'n eu hamlygu yn hytrach.

[Bu i'n gwaith cenedlaethol ar ofal brys ac argyfwng](#), glywed gan fwy na 700 o bobl, gan gynnwys 42 o ymweliadau i unedau gofal argyfwng a brys. Roedd pobl yn canmol

ymroddiad a thosturi'r staff. Dywedasant wrthym hefyd am orfod aros am gyfnodau hir ac anghyfforddus, gormod o bobl, prinder gwybodaeth, colli urddas, a'r anhawster wrth geisio cael y gofal cywir ar yr adeg iawn.

“Roedd yr holl staff, o’r glanhawyr i’r ymgynghorwyr, yn wych. Galwn weld pa mor brysur oedd pawb, felly doeddwn i ddim yn swnian, ond os oedd angen cymorth neu ofal arnaf, roeddent ar gael.”

“Disgwyliais am 24 awr ar un achlysur a 26 awr dro arall, rwy’n anabl ac roeddwn mewn cryn dipyn o boen, ond roedd yn rhaid i fi gysgu mewn cadair anghyfforddus. Ar un achlysur, roedd yn eistedd mewn cadair swyddfa oherwydd doedd neb yn rhagweld y byddai pobl yn disgwyl am wely, felly doedd yna ddim cadeiriau cyfforddus neu rai sy’n gorwedd yn ôl.”

Awgryma ein gwaith gofal cymdeithasol fod y bwlch rhwng polisi a phrofiad yn aml ar ei waethaf pan fydd pobl yn gadael yr ysbyty.

“Cafodd fy nhad ei adael yn gaeth i’r gwely oherwydd cymorth cymunedol gwael wedi iddo adael yr ysbyty.”

Gofal mewn coridor

Mae Llais wedi ymuno â'r alwad i roi diwedd ar ofal mewn coridor, ac rydym yn cyfrannu at y gweithgor cenedlaethol sy'n datblygu diffiniad ar gyfer Cymru. Dywed pobl mai dyma'r sefyllfa fwyaf amlwg ble mae urddas yn cael ei chwalu.

“Roedd hi 4 troedfedd o un claf a llai na 5 troedfedd o un arall. Roedd hi mewn gofid, yn ymbil yn uchel ac yn gofyn yn ddibaid am gymorth. Roedd hyn yn creu pryder iddi hi, i minnau a'r cleifion eraill a oedd yn gweld y cyfan, a hwythau hefyd yn poeni ac yn pryderu drosti. Doedd yna ddim digon o gyrtans ar gyfer pawb, dim lle i symud gwelyau a chadeiriau er mwyn gallu rhoi ychydig o breifatrwydd ac urddas yr oedd P yn ei haeddu.”

Yr haf hwn, disgwyliodd bron i 11,000 o bobl am 12 awr neu ragor mewn adrannau brys mewn un mis ([Awst 2026](#)). Os bydd pobl yn disgwyl yn hir, yna mae gofal mewn coridor yn fwy tebygol o ddigwydd, a gallai'r gaeaf wneud y sefyllfa'n waeth.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i fyrddau iechyd i fynd i'r afael â gofal mewn coridor y gaeaf hwn, a chael o leiaf un cynllun i'w waredu. Pan fydd y diffiniad cenedlaethol wedi'i gytuno, dylid ei ddefnyddio i gofnodi ac i gyhoeddi pa mor aml mae gofal mewn coridor

yn digwydd. Tan hynny, dylai cynlluniau ddangos sut y bydd urddas a diogelwch yn cael ei warchod a'i sicrhau ar gyfer unrhyw un sy'n derbyn gofal y tu allan i leoliad clinigol.

Beth sy'n cael ei wneud eisoes

Ym mis Gorffennaf, gofynnodd Llywodraeth Cymru i GIG Cymru a phartneriaid gofal cymdeithasol gynllunio'n gynharach, cymryd ymagwedd blwyddyn gyfan a chanolbwyntio ar [bump o feysydd](#): brechu, cadw pobl yn iach yn eu cartrefi, sicrhau bod mwy o welyau ar gael, gadael yr ysbyty'n ddiogel, a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu rhedeg yn barhaus.

Mae asesiadau parodrwydd wedi cael eu cwblhau, ac mae ymagwedd newydd tuag at gyfathrebu cyhoeddus yn cael ei ddatblygu. Rydym yn croesawu'r ffocws cynnar hwn, yn enwedig yng nghyd-destun pobl oedrannus, gadael yr ysbyty'n ddiogel a gofal mewn coridor.

Datganiad dydd Mawrth

Mae'r datganiad yn gyfle i Aelodau ddeall pa mor barod yw gwasanaethau, dysgu am y risgiau sy'n cael eu monitro, a gofyn ynghylch sut mae gwasanaethau yn ymateb.

Yn seiliedig ar farn y bobl wrth i ni holi, gobeithiwn y bydd y datganiad yn cynnwys:

1. Beth oedd canfyddiadau'r asesiadau parodrwydd. Y prif risgiau sy'n cael eu monitro, beth sydd wedi newid o ganlyniad i hynny, ac a fydd crynodeb yn cael ei gyhoeddi.
2. Gofal mewn coridor. Beth fydd y byrddau iechyd yn gobeithio ei gyflawni dros y gaeaf hwn, a sut fydd y cynnydd hwnnw'n cael ei rannu gyda'r cyhoedd.
3. Helpu pobl i wybod ble i fynd. Cynnydd ar yr ymagwedd newydd wrth gyfathrebu, gan gynnwys yn Gymraeg ac mewn fformatau hygyrch.
4. Profiad pobl. Sut y bydd cyfathrebu, urddas a diogelwch wrth ddisgwyl yn cael ei dracio a'i adrodd law yn llaw â pherfformiad gweithredol.
5. Cyrraedd adref yn ddiogel. Sut y bydd gadael yr ysbyty yn gynharach a thros y penwythnos yn cydfynd â gofal, offer, meddyginiaeth a chludiant, pan fydd pobl yn mynd adref.

6. Ymateb wrth i'r pwysau gynyddu. Sut y bydd problemau yn cael eu hamlygu a'u datrys yn gyflym, a sut y bydd pobl yn cael eu diweddaru.

Ein prawf dros y gaeaf hwn

Cynlluniau rheoli perfformiad y gaeaf gan eraill; ein gwaith ni yw eu profi yn erbyn profiadau pobl, gan ddefnyddio pum cwestiwn a dynnwyd o'n [Egwyddorion y Bobl](#), a ddaeth o sgysiau gyda miloedd o bobl ledled Cymru.

Eich cwestiwn	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Egwyddorion Pobl
Cael help	Mae pobl yn gwybod ble i droi dros y Nadolig, gan gynnwys gofal Meddyg Teulu a thu allan i oriau	1. Mynediad sy'n gweithio i bawb
Cael gwybodaeth barhaus	Mae pobl yn cael gwybod beth sy'n digwydd ac am ba hyd y byddant yn gorfod disgwyl o bosib	3. Cyfathrebu clir a gonest
Urddasol	Urddas mewn adrannau gyda gormod o bobl, coridorau, ac wrth ddisgwyl am ambiwlans gartref	2. Urddas a pharch, bob tro
Cadw'n ddiogel wrth ddisgwyl	Bod pobl sydd mewn peryg o waethygu, gan gynnwys mewn argyfwng iechyd meddwl, yn gwybod at bwy i droi	5. Gofal a chymorth amserol wrth i chi ddisgwyl; 6. Y person cyfan
Cyrraedd adref yn ddiogel	Bod gofal, offer, meddyginiaeth a chludiant yn eu lle wrth i bobl gyrraedd adref	4. Gofal cydgysylltiedig; 7. Sy'n galluogi annibynniaeth

Byddwn yn rhoi sylw arbennig i bobl sydd eisoes yn wynebu rhwystrau ychwanegol (Egwyddor 8), gan gynnwys pobl anabl ac oedrannus, gofalwyr di-dâl, a phobl sy'n dymuno cael eu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg neu mewn iaith neu fformat arall.

Yr hyn y bydd Llais yn ei wneud

Bydd ein timau yn parhau i wrando ar bobl drwy gydol y gaeaf a throsglwyddo'r hyn a glywn i fyrddau iechyd, pwyllgorau a fforymau cyhoeddus.

Os bydd cynlluniau'n gweithio, fe ddywedwn hynny a rhannu'r hyn sy'n gweithio, ac os nad ydynt byddwn yn codi hynny gyda'r sefydliadau cyfrifol a gofyn beth fydd yn newid.

Byddwn yn adrodd yn ôl: diweddariad cynnar ym mis Ionawr, wedi'r prysurdeb dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a chynhyrchu adroddiad llawn yn y gwanwyn.

Gall aelodau helpu drwy annog etholwyr i rannu eu profiadau gyda ni, yn Gymraeg neu yn Saesneg - [Dweud eich dweud | LLAIS](#)